CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

Awgrymiadau a chyfarwyddiadau i hwyluso dyletswyddau

ARWEINYDDION a CHYFEILYDDION

SEREMONI CADEIRIO/CORONI

Braslun o drefn gweithredu'r seremoni

ARWEINYDDION

- Dylai arweinyddion llwyfan fod yn unigolion sionc sydd â phersonoliaeth cynnes a chyfeillgar, sy'n medru cyfathrebu gyda'r gynulleidfa a'r stiwardiaid mewn modd cwrtais, dymunol a chadarn. Mae cyfathrebu effeithiol (ac ychydig o hwyl!) yn hollbwysig er mwyn creu naws braf o'r cychwyn cyntaf, sydd yn help i setlo nerfau'r cystadleuwyr, rhoi hwb i'w hyder (yn enwedig i'r cystadleuwyr iau) a chynnal diddordeb pawb.

- Rhaid cael llais cryf, a'r hyder i fynnu sylw'r gynulleidfa ac i sicrhau distawrwydd pan fo cystadleuwyr yn perfformio neu'r beirniaid yn siarad.

- Mae angen i arweinyddion fod yn gyfeillgar ac yn amyneddgar gyda'r cystadleuwyr hefyd, gan sicrhau bod trefn i'r cystadlu (e.e yr olaf i'r llwyfan i gystadlu gyntaf) a bod hyn yn glir i bawb.

- Mae medru cadw'r eisteddfod i fynd yn hanfodol bwysig; ni ddylid cael gormod o saib rhwng y cystadleuwyr yn yr un gystadleuaeth, na rhwng cystadlaethau chwaith. Dylai fod gan arweinydd stôr fechan o bethau i'w dweud neu i'w cyhoeddi os oes cyfnod o aros anorfod, e.e i'r beirniaid gwblhau ysgrifennu beirniadaeth cyn bwrw ymlaen i'r gystadleuaeth nesaf.

- Dylid darllen dros unrhyw gyflwyniadau pwysig (fel cyflwyniad i'r llywydd neu enillwyr prif wobrau llenyddol), er mwyn ymgyfarwyddo â'r cynnwys a sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei drosglwyddo'n raenus i gynulleidfa'r eisteddfod.

- Cofiwch fod disgwyl i'r arweinyddion ddilyn canllawiau ysgrifenyddion yr eisteddfod

CYFEILYDDION

- Gellir gofyn i ysgrifenyddion yr Eisteddfodau i nodi cyfeiriad a rhif ffôn y cyfeilydd, ar y rhestr testunau, er mwyn i gystadleuwyr fedru cysylltu mewn da bryd.

- Hefyd beth am ofyn i ysgrifenyddion yr Eisteddfodau i nodi y byddai anfon copïau ymlaen i'r cyfeilydd yn fanteisiol.

- Pan fydd yna ddarnau gosod, gwnewch yn siwr eich bod wedi gwneud eich gwaith cartref.

- Mae'n bwysig cadw golwg ar y cystadleuydd yn ogystal ag ar y copi o'r darn er mwyn gwneud yn siwr fod yna gyd-weithio hapus.

-

- Sicrhewch bod gennych rywun i droi'r tudalennau pan fydd troad anodd, neu defnyddiwch gopi wedi ei lungopïo a'i osod allan dudalen wrth dudalen.

- Pan yn cyfeilio i offeryn, gwneud yn siwr fod yr offeryn yn cael ei diwnio i draw y piano cyn dechrau.

- Pan fo plant yn canu, cofiwch chwarae'n dawel a sensitif, i wneud yn siwr nad yw'r piano'n boddi'r llais.

- Fel arfer mae gofyn am ddau gopi – un i'r beirniad ac un i'r cyfeilydd. Dylid gwneud yn siwr fod y copi 'gorau' o ran ansawdd gan y cyfeilydd.

- Pan yn chwarae darn ar yr olwg gyntaf – dylid cymryd amser cyn dechrau, i astudio elfennau fel y cywair a'r amseriad, ac hefyd y cyfarwyddiadau cerddorol - yn enwedig y cyfarwyddiadau sy'n ofyn am ail-ganu/ail-adrodd , mynd 'nôl i'r dechrau, dyblu'r gytgan olaf a.y.b.

- Cofiwch bod cyfeilydd da yn cefnogi'r cystadleuwyr - mae'n bwysig eu bod yn teimlo'n gyfforddus, beth bynnag fo'u hoedran a pha bynnag faint o brofiad sydd ganddynt.

CADEIRIO neu GORONI

AGOR Y SEREMONI

Mae ambell eisteddfod, fel yr Eisteddfod Genedlaethol yn canu'r corn gwlad i godi'r gynulleidfa ar ei thraed. Mae'r corn yn cael ei ganu i bedwar cyfeiriad: at yr orsedd ar y llwyfan (os oes un), i'r dde o'r llwyfan, o flaen canol y llwyfan ac i'r chwith o'r llwyfan.
Mae'r gynulleidfa'n codi ar eu traed yn codi wrth i'r corn gael ei ganu i'w cyfeiriad.

Yna bydd yr arweinydd yn galw ar rywun i ganu Gweddi'r Orsedd. Mae'r gynulleidfa'n ymuno drwy ganu am yn ail â'r canwr ac mae pawb yn canu'r llinell olaf gyda'i gilydd:

Dyro Dduw dy nawdd,
Ac yn nawdd, nerth,
Ac yn nerth, deall,
Ac yn neall, gwybod,
Ac yng ngwybod, gwybod y cyfiawn,
Ac yng ngwybod y cyfiawn, ei garu,
Ac o garu, caru pob hanfod,
Ac o bob hanfod caru Duw, Duw a phob daioni.

Ar derfyn y weddi mae'r arweinydd yn gofyn i'r gynulleidfa i eistedd.

Mae'r arweinydd yn cychwyn drwy dynnu sylw'r gynulleidfa at y Gadair hardd sydd ar y llwyfan, yn dweud beth oedd gofynion y gystadleuaeth. Yma, hefyd, mae cyfle i ddweud gair am noddwyr y gystadleuaeth.
Nesaf, mae'n galw ar y beirniad i ddod i draddodi

Y FEIRNIADAETH

Y beirniad i draddodi beirniadaeth gryno o'r gystadleuaeth, gan nodi bod beirniadaeth ysgrifenedig lawn ar gael i bob un sy'n dymuno ei dderbyn.

Os oes teilyngdod, gwaith y beirniad yw cyhoeddi ffugenw'r bardd buddugol e.e "Braint yw cyhoeddi bod teilyngdod, ac mai bardd y Gadair yn Eisteddfod _____, 20__, yw *Penrhyn*."

Mae'r arweinydd yn ail-gydio yn yr awennau drwy ddiolch i'r beirniad, ac yn cyhoeddi'r ffugenw buddugol i'r byd. Mae'n gofyn i'r bardd sefyll e.e "A wnaiff *Penrhyn*, a *Penrhyn* yn unig, godi ar ei draed neu ei thraed ar ganiad y corn gwlad."

Cenir y corn gwlad a daw eiliadau o oedi wrth i bawb ddisgwyl i'r bardd buddugol godi. Unwaith y bydd hwnnw neu honno'n codi, mae'r osgordd yn cerdded o'r llwyfan i gyrchu'r bardd at ei Gadair. Mewn rhai eisteddfodau rhoddir clogyn neu fantell dros ysgwyddau'r bardd.

Daw'r bardd, a'r osgordd y tu ôl iddo/iddi, i'r llwyfan a bydd yr arweinydd yn gofyn iddo/iddi sefyll o flaen y Gadair (nid yw, ar unrhyw gyfrif, i eistedd i lawr!!).

Mae'r arweinydd yn sefyll wrth ei ochr ac yn cyhoeddi ei enw e.e "*Penrhyn* yng nghystadleuaeth y gadair yn yr eisteddfod hon eleni yw _____". Bydd cymeradwyaeth yn dilyn, ac yna aiff yr arweinydd ymlaen i sôn am yr unigolyn (ble mae'n byw, os yw wedi ennill o'r blaen ac ati).

Erbyn hyn fe fydd pawb yn gwybod pwy yw'r enillydd, ond ni fydd wedi ei gadeirio'n ffurfiol.

Y CADEIRIO

Mae'r arweinydd yn galw ar Geidwad y Cledd i ddod â'r cledd at y Gadair. Mae'r cledd (gyda'r llafn yn dal yn ei wain) yn cael ei godi uwchben y bardd buddugol. Tynnir y cledd hanner ffordd allan o'i wain wrth i'r arweinydd ddatgan y geiriau isod, gyda'r gynulleidfa'n ateb bob tro gyda'r gair "Heddwch!"

Wrth i'r gair "Heddwch!" gael ei ddatgan gan y gynulleidfa, rhoddir y cledd yn ôl yn ei wain

"Y Gwir yn erbyn y Byd. A oes Heddwch?"
"Calon wrth Galon. A oes Heddwch?"
"Gwaedd uwch Adwaedd. A oes Heddwch?"

Ar ôl yr "Heddwch!" olaf mae'r arweinydd yn dweud "Eistedded y Bardd yn hedd yr eisteddfod".
Mae'r bardd yn eistedd, a thrwy wneud hynny yn cael ei 'gadeirio'.

CÂN Y CADEIRIO

I ganmol y bardd ar ei gamp/ei champ, mae'r arweinydd yn galw ar rhywun i ganu Cân y Cadeirio. Mae'r gynulleidfa'n ymuno yn nwy linell olaf bob pennill ("Henffych Brifardd! Gweiniwyd…..")

Henffych i'r Prifardd ar fuddugol hynt,
Seiniwch ei enw i'r pedwar gwynt.
Hwn ydyw brenin beirdd yr ŵyl i gyd
Cenwch yr utgorn i bedwar ban byd.
Henffych Brifardd! Gweiniwyd llafn y cledd,
Bloeddiodd yr Eisteddfod yn unfryd, Hedd.

Ninnau, gymrodyr, eiliwn ein boddhad;
Calon wrth galon yw cri'r Corn Gwlad.
Llygad goleuni beunydd ar ei lwydd,
Duw a phob daioni iddo'n rhwydd.
Henffych Brifardd! Gweiniwyd llafn y cledd,
Bloeddiodd yr Eisteddfod yn unfryd, Hedd.

Cenwch, gyd-wladwyr, heddiw'n ddiwahardd;
Cenwch wrogaeth i Gadair y Bardd.
Gorsedd dehonglwr ein breuddwydion mud,
Gorsedd y Gwir yn erbyn y Byd.
Henffych Brifardd! Gweiniwyd llafn y cledd,
Bloeddiodd yr Eisteddfod yn unfryd, Hedd.

Y DDAWNS FLODAU

Mae rhai eisteddfodau yn cynnal dawns flodau gyda phlant ifanc yn dawnsio o flaen y bardd. Yn sermonïau'r Eisteddfod Genedlaethol daw Merch y Fro a blodeuged at y bardd buddugol ac yna'r Corn Hirlas, ond nid yw hyn yn digwydd mewn eisteddfodau llai.

Cyn cloi'r seremoni mae cyfle i alw ar gyfarchion gan feirdd eraill. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol daw rhywun o'r Orsedd – Prifardd fel arfer, ymlaen i ddarllen englyn neu bwt o gywydd. Mewn eisteddfodau lleol yn aml gelwir ar ddau neu dri o bobl ifanc i adrodd cyfarchion ar ffurf penillion.

Terfyn y seremoni yw'r arweinydd yn llongyfarch y bardd unwaith eto, yna'n galw ar y gynulleidfa i uno i ganu *Hen Wlad fy Nhadau*.

Yna, caiff y bardd ei ddilyn, oddi ar y llwyfan, gan yr osgordd a phawb arall oedd ar y llwyfan.

Dylid cofio mai braslun yw'r uchod, i'w ddefnyddio fel canllaw. Mae llu o eisteddfodau'n cynnal eu sermonïau yn wahanol i'w gilydd a dylid cofio fod gan rai eisteddfodau eu defodau eu hunain, - does dim o'i le ar hynny.

Cofiwch, felly, mai arweiniad yn hytrach na threfn gadarn yw'r canllawiau yma.

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

www.steddfota.cymru

YouTube